CYNGOR CYMDEITHAS BODFFORDD COMMUNITY COUNCIL

COFNODION CYFARFOD NOS FAWRTH 17eg MEHEFIN 2025.

NEUADD GOFFA BODWROG.

PRESENNOL:
Cyng. G Jones, W R Parry, D T Roberts, R R Roberts ar Clerc D Owen.

YMDDIHEURIADAU: Cyng. Ms N Dafydd, J E Lewis, R G Parry, Mrs L Roberts.

CYNGHORWYR DATGAN DIDDORDEB. Neb.

Oherwydd fod y Cadeirydd a`r Is-Gadeirydd yn absennol. Cyng. D T Roberts oedd yn y gadair.

CAEL COFNODION 20ed MAI 2025 YN RHAI CYWIR:
Cynnig Cyng. G Jones eilio Cyng. R R Roberts.

Gofynwyd i gyfnodi gan Cyng G Jones fod y Clerc Derek Owen wedi bod yn y swydd ers 30 mlynedd i heno.

MATERION YN CODI O`R COFNODION.

Cafnau Blodau gwaelod Bodffordd (Groeslon Llangwyllog) a Bronheulog Bodffordd.)
Nid oes gan Cymmell diddordeb edrych ar ei hol, maen`t yr rhy brysur.
Gofyn nawr i Nigel Williams a fedr wneud y gwaith (chwynnu i`w y gwaith mwyaf)

Llygod Mawr. 25 Bronheulog, Bodffordd. Y broblem nawr wedi ei ddatrys gan y Cyngor Sir. Cyng. G Jones yn ddiolchgar i`r Clerc am doddiant mor sydyn.

Kiosk Ffon. ger Bronheulog Bodffordd. Gwaith yn cael ei wneud arno. Bocs newydd ei angen. Eto y Cyng. G Jones yn ddiolchgar i`r Clerc am ddatrys y broblem, gyda BT.

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF.

1. S106/2025/4. Cais i dynnu cytundeb 106 "Annedd Fforddiadwy" oddi ar gais cynllunio FPL/2019/185 yn:-
   Tyn Rhos, Trefor.
   Y Cyngor yn hollol gwrthwynebu tynnu cytundeb 106.
   Mae gormod o hyn yn digwydd.
   Os yn cael ei dynnu pam mae angen ei rhoi yn y lle cyntaf?
   Cynnig Cyng. R R Roberts, eilio Cyng. W R Parry.

PENDERFYNIADAU. (CYNLLUNIO)

2. FPL/2025/3. Cais llawn ar gyfer codi garej ynghyd ag estyniad i`r cwrtil yn:-
   Llys Helyg, Bodffordd.
   Caniatad. Derbyn.

GOHEBIAETH (CYNGOR SIR YNYS MON)

3. Swyddog Polisi - Rhian W Jones.
   Dechrau am gartref newydd i Ysgol Uwchradd Caergybi. Cartref Modern i ddysgwyr o 11 i 18 oed i adeilad gwerth 66 miliwn erbyn 2030. Rhandeiliad sydd a cysylltiad a`r Ysgol Uwchradd yn cael ei hannog i ddweud a`i gynygion am adeilad newydd ger Canolfan Hamdden Caergybi. (yn dibynnu ar gaffael y tir yn llwyddiannus) Gallu derbyn 900 o ddisgyblion.
   Ymgynghori Statudol dechrau 5 Mehefin dod i ben 17 Gorffennaf 2025.
   Y Cyngor yn derbyn y wybodaeth heb ddim sylwadau.

4. Pecyn Chwarae - Tim Gofal Plant a Chwarae.
   Mae`r Cyngor Sir yn credu`n gryf bod gan bob plentyn hawl i chwarae ons sut allwn ni wneud yn siwr.
   Y Cynghorwyr wedi cael gwybodaeth ymlaen llaw ond nid oedd unrhyw sylwadau. Felly fei dderbyniwyd ai adael. Cadw mewn golwg.

5. Swyddog Hawliau Tramwy Cyhoeddus - Arwel G Evans.
   Llwybr rhif 14/032/1. Wedi bod yn edrych ar y llwybr (Ty Croes i Llwyn Onn, Tynlon) Mae gris wedi ei dorri ers archwiliad 2022. Edrych cyfrifoldeb pwy ydyw. Pan fydd cadarnhad bydd y gamfa yn cael ei trwsio.
   Cyngor yn derbyn y wybodaeth. A disgwyl y cynnydd.

6. Rheolwr Cyfleusterau ac Ystadau - Iwan Morris.
   Holiadu`r Mynwentydd.
   Gweithio gyda Grwp CDS i drio creu llawlyfr i gynorthwyo`r Cynghorau Cymuned, gyda`i mynwentydd.
   Er mwyn derbyn mewnbwn (input) wedi creu holidaur syml i gasglu gwybodaeth.
   Mae y Cyngor wedi hel y canlynol i ateb yr holiadu`r.
   Bodffordd.
   Mynwent Gymunedol Bodffordd. (Digon o le) Capel Gad. (Digon o le) Heneglwys (Dim llawer o le ar ol) Bodwrog.
   Capel Belan (Dipyn o le ar ol) Capel Bryntwrog (wedi cau) Eglwys y Plwyf (Teulu. fel arall wedi cau) Llandrygarn.
   Eglwys Y Plwyf (Teulu yn unig. fel arall wedi cau.)

GOHEBIAETH (ARALL)

7. Swyddog Ymgysylltiad a Datblygu Cymunedol - Deb Jeffreys.
   Amser Hyfforddi Cymorth Cynllunio Cymru Newydd 2025 / 2026.
   Derbyn. Nid oedd neb a diddordeb i fynd am hyforddiant. Gadael.

RHODDION.

8. Diim.

PLWYFOL.

9. Treth Cyngor. Faith am dwyll. Oherwydd fod ychydig yn bresennol pasiwyd i`w adael hyd y cyfarfod nesaf pan fydd cyfarfod llawn. Cynnig Cyng. G Jones, eilio Cyng. W R Parry.

10. Cymeradwyo. Adolygu asesiad risg a chynllun rheolaeth.
    Pasiwyd i dderbyn cynnig Cyng. G Jones, eilio Cyng. W R Parry.

11. Roedd y Clerc wedi derbyn text gan y Cadeiryddes Cyng. Mrs L Roberts o neges oedd wedi derbyn gan Mrs Donna Jones ynghylch Japanese Knot Weed yn gwaelod Bodffordd groeslon Llangwyllog. Mae yn dod o dir Dwr Cymru. Yr oed ei chymydog wedi cael e-bost gan Cynghorydd Sirol Dylan Rees fod y Cyngor Sir yn wybodol a bydd Cwmni Arbennig yn ei drin yn Medi / Hydref. Mae hyn yn bell ac erbyn hynny bydd wedi mynd ar y llecyn gwyrdd y Cyngor Cymdeithas. (Eiddo y Cyngor Sir)

Pasiwyd yn unfrydol i'w anfon ymalen i'r Cyngor Sir (Nid ydyw ddim i'w wneud a'r Cyngor Cymdeithas. Cynnig Cyng. R R Roberts, eilio Cyng. G Jones.

12. Cymeradwyodd y Cyngor Awdit 2024 / 25 fel rhai cywir. Y Clerc wedi rhoi y ffurflenni o'i blaen iddynt cael ei treulio. (J A Foulkes. Awdit Mewnol) Y Clerc a'r Cadeirydd Cyng. D T Roberts yn ei harwyddo yn barod i'w hanfon i fynnu i'r Awdit allanol. (Awdit Cymru Caerdydd) Y rhybudd wedi ei rhoi i fynnu. Cynnig Cyng. G Jones, eilio Cyng. W R Parry. Cyng. D T Roberts yn arwyddo fel Cadeirydd am fod y Gadeiryddes a'r Is-Gadeirydd yn absennol.

13. Cynllun Hyforddiant. I'w mabwysiadu yn y cyfarfod nesaf. (Cyngor llawn)

14. Adroddiad y Cynghorydd Sirol. Ms N Dafydd. Nid oedd y Cynghorydd yn bresennol.

MATERION ARIANNOL.

15. Cyfrif Rhedegol. £25,371.13.

    Mynwent Gymunedol Bodffordd £9,910.00 rhan o'r uchod))

TALIADAU:

16. Clerc £500.55. Gweinyddiaeth (3mis) £151.92. Treth Incwm 1. £375.41. Anglesey Computer Solutions (Wefan) £210.00

    Derbyn cydbwysedd cyfrif, a talu y dyledion i gyd. Cynnig Cyng. R R Roberts, eilio Cyng. W R Parry.

D Owen (Clerc)